**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**
**Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP**

**Friends of National Museum Wales**
**Cathays Park, Cardiff CF10 3NP**

**SADWRN 7 GORFFENNAF 2018**

**am 10.30yb yn Narlithfa Reardon Smith, Parc Cathays**

**'Iolo Morganwg'**

**Sgwrs gan yr Athro Geraint Jenkins**

Hwyrach nad yw amryw o aelodau'r Cyfeillion yn ymwybodol o'r cyswllt arbennig rhwng Iolo Morganwg ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru, a gynhelir eleni yma yng Nghaerdydd. Yn y sgwrs hon bydd yr Athro Geraint Jenkins yn olrhain sut yr arweiniodd meddylfryd creadigol Iolo at sefydlu seremonïau a defodau Gorsedd y Beirdd, ac yn asesu ei gyfraniad tuag at Adfywiad Celtaidd y ddeunawfed ganrif.

Ac yntau gyda'r mwyaf blaenllaw o haneswyr Cymreig nodedig yr hanner canrif diwethaf, bu Dr Jenkins gynt yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth, sefydliad clodfawr ar draws gwledydd, ar ôl treulio cyfnod fel Athro Hanes Cymru yn y Brifysgol yno. Bu hefyd yn Gadeirydd a Chyfarwyddwr Ymchwil y Bwrdd Gwybodau Celtaidd. Mae ar hyn o bryd yn aelod o Fwrdd yr Academi Brydeinig; cyhoeddodd yn helaeth ar Hanes Cymru yn Gynnar a Chyfoes, ac mae'n frwd o blaid cynnal prosiectau ymchwil cydweithiol. Rhoes un o'r cyfryw gynlluniau sylw manwl i Ddiwylliant Gweledol Cymru. Arweiniwyd hefyd ganddo gywaith a archwiliodd faes Iolo Morganwg a'r Traddodiad Rhamantaidd yng Nghymru, ac o dan ei olygyddiaeth ef, cyhoeddwyd ffrwyth yr ymchwil hwn gan Wasg Prifysgol Cymru.

Y tâl mynediad, i gynnwys coffi a bisgedi ar ôl y sgwrs, yw £8 i'r Cyfeillion sydd yn archebu ymlaen llaw, a £10 wrth y drws. Er mwyn manteisio ar y pris gostyngedig hwn, llenwch y daflen isod a'i hanfon **erbyn Dydd Mercher, 4 Gorffennaf** gyda'ch siec at Ann Saer, 15 Highfields, Llandaf CF5 2QA (ffôn: 029 2056 2756 ebost: annsaer15@gmail.com). I arbed costau postio, ni fydd cydnabyddiaeth. Dewch yn llu, a dewch â'ch ffrindiau, gan fod y digwyddiad yn agored i'r cyhoedd am £10 y pen. Croeso cynnes i bawb.

..............................................................................................................................

**Cyfeillion Amgueddfa Cymru: Sgwrs gan Dr Geraint Jenkins - 'Iolo Morganwg'**

**Sadwrn 7 Gorffennaf yn Narlithfa Reardon Smith, Parc Cathays am 10.30yb**

Carwn i chi gadw ......le/lle ar gyfer y digwyddiad uchod. Amgaeaf siec am £......................... (yn daladwy i Cyfeillion Amgueddfa Cymru).

Enw/au...........................................................................................................................

Cyfeiriad a chod post.....................................................................................................

Ffôn....................................................ebost..................................................................

☐ Cadarnhaf fy/ein aelodaeth cyfredol o Gyfeillion Amgueddfa Cymru

*Registered Charity No. 701990 Rhif. Elusen Gofrestrig*